

Teitl: Title:	Gweithgareddau a Thripiâu oddi ar y safle - Meithrinfa Toybox
Fersiwn: Version	1
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Myfyrwyr, staff meithrinfa, rhieni a phlant

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Asesiad effaith / Impact assessment
<i>Effaith ar y Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</i>

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager		
Ymgynghoriad/ Consultation:	Rhestrwch nhw / Please list Staff y Feithrinfa		
Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group		Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:		31/01/2025
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	Os yn berthnasol / If applicable
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	Os yn berthnasol / If applicable
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	Os yn berthnasol / If applicable
	Corff Llywodraethu / Governing Body:		Os yn berthnasol / If applicable
Dyddiad Adolygu: Review Date:	31/01/2028		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Gweithgareddau a Thripiâu Oddi ar y Safle

1. Gweithdrefnau	2
2. Asesiad risg / cynllun tripiâu allan	3
3. Plant Ar Goll	4
4. Mewn argyfwng	4

Ym **Meithrinfa Toybox** rydym yn cynnig amrywiaeth o deithiau lleol i blant gan gynnwys teithiau cerdded a theithiau oddi ar y safle. Credwn fod tripiâu ac ymweliadau wedi'u cynllunio yn ategu ac yn gwella'r cyfleoedd dysgu o fewn amgylchedd y feithrinfa ac yn ymestyn profiadau plant. Rydym bob amser yn gofyn am ganiatâd rhieni i blant gael eu cynnwys mewn tripiâu o'r fath.

1. Gweithdrefnau

Mae ymweliadau a thripiâu allan yn cael eu cynllunio'n ofalus gan ddefnyddio'r gweithdrefnau canlynol ynghyd ag unrhyw ganllawiau lleol/cenedlaethol, beth bynnag fo hyd neu gyrchfan yr ymweliad:

- Bydd rhestr wirio cyn-ymweliad, asesiad risg llawn a chynllun tripiâu bob amser yn cael eu cynnal gan uwch aelod o staff cyn y daith i asesu'r risgiau neu'r peryglon a allai godi i'r plant, a nodi camau i'w cymryd i gael gwared ar, lleihau a rheoli'r risgiau a'r peryglon hynny. Byddwn yn ymdrechu i ymweld â'r lleoliad cyn yr ymweliad. Bydd hyn yn sicrhau bod y lleoliad sy'n cael ei ddewis yn briodol ar gyfer oedran, cam a datblygiad y plant.
- Mae gan staff sy'n goruchwyllo teithiau gymhwyster lefel 3 o leiaf
- Bydd caniatâd trwy'r teulu bob amser yn cael ei sicrhau gan rieni cyn mynd â phlant allan
- Rydym yn darparu lefelau staffio priodol ar gyfer tripiâu yn dibynnu ar asesiad o ddiogelwch ac anghenion unigol y plant.
- Bydd o leiaf un aelod o staff yn meddu ar dystysgrif cymorth cyntaf pediatriig lawn ddilys a chyfredol a bydd hyn yn cael ei gynyddu lle mae asesiad risg o'r gweithgaredd arfaethedig yn ystyried ei fod yn angenrheidiol.
- Rydym yn dynodi un aelod o staff i fod yn arweinydd y trip, gallai hwn fod yr aelod staff mwyaf uwch sy'n mynd a'u rôl nhw fydd arwain rhag ofn unrhyw argyfyngau a/neu ddigwyddiadau **(gweler y weithdrefn Plentyn ar goll o dripiâu)** ac unrhyw bryderon diogelu neu amddiffyn plant (gweler y polisi Diogelu plant ac amddiffyn plant)
- Bydd blwch cymorth cyntaf wedi'i stocio'n llawn yn cael ei gymryd ar bob trip ynghyd ag unrhyw feddyginiaeth neu offer arbennig sydd ei angen.
- Bydd cofrestr trip wedi'i chwblhau ynghyd â rhifau cyswllt rhieni a staff yn cael eu cymryd ar bob trip
- Byddwn yn cyfri pennau'n rheolaidd drwy gydol y trip. Bydd amseriadau cyfrif pennau yn cael eu trafod yn llawn gyda rheolwr y feithrinfa cyn y daith.
- Bydd yr holl staff yn hawdd eu hadnabod gan aelodau eraill y grŵp; byddant yn gwisgo gwisg y feithrinfa a festiau neu siacedi llachar
- Bydd plant yn hawdd i'w hadnabod gan staff pan fyddant ar drip trwy ddefnyddio system sticeri. Bydd enw, rhif a rhif ffôn symudol y feithrinfa yn cael eu harddangos
- Bydd ffôn symudol y feithrinfa wedi'i wefru'n llawn yn cael ei gymryd fel dull cyswllt brys *(bydd y staff yn cael eu hatgoffa o'r polisi ffôn symudol a gofynnir iddynt adael ffonau personol yn y lleoliad)*
- Os bydd damwain, bydd staff yn asesu'r sefyllfa. Os oes angen, bydd y grŵp yn dychwelyd i'r feithrinfa ar unwaith a byddwn yn cysylltu â rhieni iddynt gasglu eu plentyn. Os bydd damwain

ddifrifol, byddwn yn galw am ambiwlans yn y fan a'r lle, yn ogystal â chysylltu â rhieni. Bydd un aelod o staff yn mynd gyda'r plentyn i'r ysbyty, a bydd gweddill y grŵp yn dychwelyd i'r feithrinfa.

2. Asesiad risg / cynllun triapiau allan

Bydd yr asesiad risg llawn a chynllun y trip allan yn cael eu harddangos i rieni eu gweld cyn rhoi caniatâd. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys manylion am:

- Enw'r person dynodedig sy'n gyfrifol - arweinydd y trip
- Enw'r lleoliad lle bydd yr ymweliad yn digwydd
- Amcangyfrif o'r amser y byddant yn cyrraedd lleoliad yr ymweliad a'r amser disgwyledig y byddan nhw'n cyrraedd yn ôl yn y feithrinfa
- Nifer y plant, ystod oedran y plant, cymhareb y staff i blant, anghenion unigol y plant a maint y grŵp
- Yr offer sydd ei angen ar gyfer y daith h.y. pecyn cymorth cyntaf, ffôn symudol y feithrinfa, cotiau, llinynnau diogelwch, cadeiriau gwthio, sach gefn, pecyn cinio ac ati.
- Rhifau cyswllt argyfwng staff
- Dull cludiant a threfniadau teithio (gan gynnwys y llwybr)
- Trefniadau ariannol
- Gweithdrefnau brys
- Enw'r person cymorth cyntaf dynodedig a'r ddarpariaeth cymorth cyntaf
- Enw'r person diogelu dynodedig ar gyfer y trip
- Cysylltiadau ag anghenion dysgu a datblygu'r plentyn.

Defnyddio cerbydau ar gyfer triapiau allan

- Dylai pob aelod o staff roi gwybod i rieni ymlaen llaw am unrhyw ymweliadau neu driapiau sy'n cynnwys cludo plant oddi wrth y feithrinfa.
- Bydd y trefniadau ar gyfer cludo plant bob amser yn cael eu cynllunio'n ofalus a lle bo angen bydd staff neu wirfoddolwyr ychwanegol yn cael eu defnyddio i sicrhau diogelwch y plant. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae plant ag anableddau yn y cwestiwn
- Mae pob cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i gludo plant wedi'i drwyddedu, ei archwilio a'i gynnal a'i gadw'n briodol.
- Byddwn yn gwneud gwiriadau rheolaidd i gerbyd y feithrinfa e.e. teiars, goleuadau ac ati a byddwn yn cadw llyfr log o waith cynnal a chadw, atgyweiriadau a gwasanaethau.
- Rhaid cadw cerbyd y feithrinfa mewn cyflwr gweithio priodol, ei yswirio'n llawn ar gyfer defnydd busnes a'i amddiffyn gan yswiriant chwalfa cynhwysfawr
- Mae gyrwyr cerbydau wedi'u hyswirio'n ddigonol
- Mae pob cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio wedi'i ffitio yn unol â chyfarwyddiadau'r cyflenwr gyda nifer ddigonol o gyfyngiadau diogelwch sy'n briodol i oedran a/neu bwysau'r plant sy'n cael eu cludo yn y cerbyd. Mae unrhyw fysiau mini/coets wedi'u gosod â gwregysau diogelwch 3 phwynt
- Pan fyddwn yn defnyddio bws mini, rydym yn gwirio bod y gyrrwr dros 21 oed ac yn dal trwydded yrru Cerbyd Cludo Teithwyr (PVC). Mae hyn yn rhoi'r hawl i'r gyrrwr gludo hyd at 16 o deithwyr
- Pan fydd plant yn cael eu cludo, rydym yn cynnal cymhareb.

Wrth gynllunio taith neu drip allan gan ddefnyddio cerbydau, caiff cofnodion cerbydau a gyrwyr gan gynnwys trwyddedau, tystysgrifau MOT ac yswiriant defnydd busnes eu gwirio. Os caiff cerbyd ei ddefnyddio ar gyfer triapiau allan, byddwn yn dilyn y gweithdrefnau canlynol:

- Sicrhau bod gwregysau diogelwch a seddi car yn briodol i oedran, pwysau neu uchder y plentyn yn cael eu defnyddio
- Sicrhau nad yw'r seddi mwyaf yn cael eu rhagori

- Bydd aelod cofrestredig o staff gyda phob plentyn
- Ni fydd unrhyw blentyn yn cael ei adael mewn cerbyd heb oruchwyliaeth
- Byddwn yn cymryd gofal ychwanegol wrth fynd i mewn neu allan o gerbyd
- Bydd y cerbyd yn cynnwys diffoddwr tân a phecyn argyfwng sy'n cynnwys triongl rhybuddio, thortsh, blancedi, offer newid olwynion ac ati.

3. Plant Ar Goll

Os bydd plentyn yn mynd ar goll, bydd y gweithdrefnau Plentyn ar Goll o deithiau yn cael eu dilyn. Bydd unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig a bydd AGC yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau.

Efallai bydd cyfleoedd i rieni gynorthwyo ar dripiâu allan. Bydd y rheolwr yn siarad â rhieni cyn yr ymweliad ynghylch iechyd a diogelwch a chod ymddygiad.

4. Mewn argyfwng

Os bydd argyfwng tra ein bod ar yr ymweliad, rydym yn annog staff i ddod o hyd i fan diogel ac aros yno nes bod y perygl wedi mynd heibio. Os oes angen, byddwn yn cysylltu â'r heddlu os yw'n ddiogel gwneud hynny. Bydd asesiad risg manwl ar gyfer pob taith, sy'n cynnwys yr holl risgiau hyn ac sy'n cael ei gynllunio ymlaen llaw.

Gallai hyn gynnwys materion eraill fel tywydd eithafol neu argyfyngau fel plentyn sy'n sâl neu wedi'i anafu ac ati.

Byddwn yn cysylltu â rhieni'r plant ar yr ymweliad i gadarnhau'r trefniadau cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny.